# Profiad Gwaith neu Wirfoddoli. Beth yw'r gwahaniaeth?

Yn aml, caiff profiad gwaith ei gysylltu â phobl ifanc sy'n ceisio penderfynu ar lwybrau gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae hefyd yn cael ei gysylltu ag unigolion yn cael cymorth ynghylch dod o hyd i gyflogaeth neu ddatblygu parodrwydd i weithio. Os oes angen i chi ddatblygu eich sgiliau er mwyn paratoi at fyd gwaith, gall 'profiad gwaith' yn ogystal â 'gwirfoddoli' gynnig y profiad a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnoch chi. Gall y ddau eich helpu i asesu gwahanol feysydd o waith, canfod beth ydych chi'n ei fwynhau, a'ch gwneud yn fwy ymwybodol o ofynion gyrfa benodol.

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi'i llywio gan drafodaethau â gwasanaethau sy'n hwyluso profiad gwaith mewn lleoliadau addysg a phrosiectau cymorth cyflogaeth. Er y bydd arfer yn amrywio ychydig ar draws y rhanbarth, dyma rhai o'r gwahaniaethau ymarferol a chyfreithiol rhwng profiad gwaith a gwirfoddoli. Gall y wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol ar gyfer pobl ifanc, rhieni/gofalwyr, darparwyr addysg a/neu gyfranogwyr prosiectau cymorth cyflogaeth sy'n chwilio am brofiad gwaith a/neu gyfleoedd i wirfoddoli.

"Rwyf eisiau gweithio fel gweithiwr cymorth yn y dyfodol, felly rwy'n chwilio am brofiad gwaith gydag elusen. Rwyf am gysylltu â fy Nghanolfan Wirfoddoli leol."

Yn y Ganolfan Wirfoddoli, mae '**gwirfoddoli**' a '**phrofiad gwaith**' yn ddau beth gwahanol.

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Hydref 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## yma rai gwahaniaethau allweddol...

| Profiad gwaith | Cyfleoedd gwirfoddoli y gall unrhyw un ymgymryd â nhw |
|---|---|
| **Beth yw Profiad Gwaith?**<br>Yn ôl y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol, profiad gwaith yw amser a dreulir mewn gweithle yn dysgu am rôl swydd, cwmni neu sector yrfa.<br><br>Gall profiad gwaith fod â thâl ac yn ddi-dâl.<br><br>Gall rhai profiadau gwaith gael eu trefnu gan ddarparwyr addysg a gwasanaethau gyrfaoedd; yr Adran gwaith a phensiynau (DWP) neu brosiectau cymorth cyflogaeth. | **Beth yw Gwirfoddoli?**<br>Mae Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru (2015) yn diffinio gwirfoddoli fel gweithgarwch:<br>• y'n cael ei gyflawni yn rhydd, o ddewis<br>• sy'n cael ei gyflawni er budd y cyhoedd/cymuned<br>• nad yw'n cael ei gyflawni er mantais ariannol<br><br>Gall gwirfoddoli fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae unigolion sy'n dymuno ennill profiad yn y byd gwaith yn fwy tebygol o ddewis rôl wirfoddol ffurfiol. Mae'r wybodaeth ar y daflen hon yn cyfeirio at rôl wirfoddol ffurfiol. |
| Gall yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y sefydliad lletya (lle bydd y profiad gwaith yn cael ei wneud) ddiogelu profiad gwaith, ond mae'n dibynnu ar y polisi – gall ffactorau a all effeithio ar hyn gynnwys natur dyletswyddau'r profiad gwaith arfaethedig a nifer y staff a gyflogir, etc. Gall gostio i gynyddu'r yswiriant. | Mae yswiriant ar gyfer gwirfoddolwr yn cyflwyno cost i'r sefydliad, ond mae'n sylweddol rhatach (hyd at 15 gwaith yn rhatach) nag yswiriant i gwmpasu staff. Nid yw'n cwmpasu'r holl weithgareddau y mae yswiriant staff yn ei ddiogelu. |
| Ni fydd contract ffurfiol wedi'i lofnodi bob amser. Ar gyfer pobl ifanc, gall y sefydliad lletya anfon gwaith papur ar gyfer profiad gwaith (gan gynnwys asesiad risg a manylion ynghylch y profiad arfaethedig) at yr ysgol/coleg. | Nid oes angen contract ffurfiol ar gyfer gwirfoddoli. Efallai bydd llwybr recriwtio fel cyfweliad, gwiriadau fetio a hyfforddiant cynefino'n cael eu dilyn. |

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Hydref 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

| Profiad gwaith | Cyfleoedd gwirfoddoli y gall unrhyw un ymgymryd â nhw |
|---|---|
| Yn aml, caiff contract ei gyflwyno pan fo profiad gwaith yn brofiad â thâl yn hytrach nag yn ddi-dâl. Mae hyn yn wir am brosiectau cymorth cyflogaeth, pan fydd cyfranogwyr yn llofnodi contract â'r sefydliad lletya. | Efallai bydd rhai elusennau'n gofyn am gytundeb gwirfoddol, ond nid yw'r berthynas rhwng gwirfoddolwr a sefydliad yn gytundebol. |
| Mae arfer gorau cyfle profiad gwaith yn nodi y dylai fod set strwythuredig o amcanion dysgu penodol a chytundeb ynghylch sut y byddant yn cael eu cyflawni. Gall hyn gynnwys datblygu sgiliau ymarferol, sesiynau hyfforddi, cysgodi ac ymgymryd â thasgau.<br><br>Ar gyfer pobl ifanc mewn addysg, gall hyn fod ar ffurf llyfr gwaith.<br><br>Ar gyfer prosiectau cymorth cyflogaeth, mae hyn fel arfer yn cael ei osod gan y sefydliad lletya. | Mae'r gwirfoddolwr yn derbyn hyfforddiant sy'n benodol i ymgymryd â'r rôl. Mae hyn fel arfer yn cael ei nodi yn y swydd ddisgrifiad (e.e. diogelu, ffiniau, hyfforddiant cyfrinachedd, yn ogystal ag elfennau sy'n benodol i brosiect, fel sut i gwblhau gwaith papur). |
| Mae angen rhoi trefniadau ffurfiol ar waith ar gyfer cynefino, gan gynnwys hyfforddiant Iechyd a Diogelwch, Polisïau a Gweithdrefnau sefydliadol, etc. ar gyfer gwaith papur lleoliad. | Dylid rhoi gwybod i wirfoddolwyr am sut i ddiogelu eu hunain wrth wirfoddoli (e.e. peidio â rhannu eu manylion personol â'r unigolion maent yn eu cefnogi. Rhaid i reolwyr gwirfoddoli hefyd ymgymryd ag asesiadau risg). |
| Mae disgwyliadau amser a dyletswyddau yn cael eu nodi gan y sefydliad lletya ac yn cael eu cyfathrebu i'r darparwr addysg. Pan fydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn rhan o'r broses, mae'r Cynghorydd Ymgysylltu â Busnes yn cytuno ar y manylion hyn wrth ymweld â'r sefydliad lletya. | Nid oes angen ymrwymiad ffurfiol. Fel arfer, mae'r sefydliad yn rhoi syniad o'r hyn y mae'n ei obeithio y gall y gwirfoddolwr ei gynnig (e.e. 2-3 awr yr wythnos). |

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Hydref 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

| Profiad gwaith | Cyfleoedd gwirfoddoli y gall unrhyw un ymgymryd â nhw |
|---|---|
| Ar gyfer prosiectau cymorth cyflogaeth, mae'r sefydliad lletya yn nodi'r disgwyliadau, o bosibl â mentor penodedig yn ymddwyn fel 'seinfwrdd'.<br><br>Mae cyfranogwyr prosiectau cyflogaeth fel arfer yn cael help gan y prosiect i dalu am gostau eitemau fel dillad ac offer wedi'i ariannu gan y prosiect. Nid dyma'r achos ar gyfer profiad gwaith oed ysgol fel arfer.<br><br>Ar gyfer prosiectau cymorth cyflogaeth, bydd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei gynnal, os yw'n ofynnol ar gyfer y rôl. Mae hyn yn cael ei ariannu gan y prosiect. | Ar y cam hwn, efallai bydd gofyn i'r gwirfoddolwr gwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), os yw'n ofynnol ar gyfer y rôl.<br><br>Bydd cyfleoedd gwirfoddoli arfer gorau yn ad-dalu treuliau i gael gwared ar rwystrau ariannol sy'n ymwneud â gwirfoddoli. |
| Dylai arfer gorau profiad gwaith gynnwys trefniadau ffurfiol ar gyfer cynefino, gan gynnwys hyfforddiant Iechyd a Diogelwch, Asesiadau Risg, Polisïau a Gweithdrefnau sefydliadol.<br><br>Bydd y sefydliad lletya yn cynnwys hyn fel rhan o'r gwaith papur ymlaen llaw a thrafodaethau gyda'r sefydliad a'r gwasanaeth addysg/ysgol.<br><br>Yn yr un modd, gall prosiectau cymorth cyflogaeth gynnal asesiadau risg ochr yn ochr â'r sefydliad lletya. Cyfrifoldeb cyffredinol y sefydliad lletya yw hyn. | Caiff gwirfoddolwyr wybod am sut i ddiogelu eu hunain wrth wirfoddoli e.e. peidio â rhannu manylion personol â'r unigolion maent yn eu cefnogi. |

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Hydref 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

| Profiad gwaith | Cyfleoedd gwirfoddoli y gall unrhyw un ymgymryd â nhw |
|---|---|
| Bydd arfer gorau cyfleoedd profiad gwaith yn golygu bod angen adnabod unrhyw addasiadau rhesymol/anghenion ychwanegol, cytuno arnynt, a'u cofnodi cyn dechrau ar y profiad gwaith.<br><br>Bydd staff ysgol/gwasanaethau addysg/cyfranogwyr prosiect yn trafod unrhyw anghenion a phrosesau ychwanegol sydd angen eu rhoi ar waith cyn dechrau ar y cyfnod profiad gwaith. Dylai'r sefydliad fod yn ymwybodol o'r rhain a chytuno ar y trefniadau (e.e. addasiadau rhesymol i unigolion anabl neu unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu).<br><br>Ar gyfer rolau â thâl, gall rhai unigolion fod yn gymwys ar gyfer cynllun Mynediad i Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau i gael cymorth a/neu offer. | Yn ôl arfer gorau, dylai cyfleoedd gwirfoddoli gychwyn trafodaethau ynghylch unrhyw anghenion/gofynion ychwanegol i alluogi'r gwirfoddolwr i fanteisio ar gyfleoedd yn y ffordd fwyaf addas iddyn nhw.<br><br>Fodd bynnag, gall gwirfoddolwyr posibl drafod eu hanghenion cymorth os nad ydynt wedi'u crybwyll eisoes. |
| Mae arfer gorau darparwyr addysg fel arfer yn cynnwys ymgynghori â'r sefydliad gynnal a llenwi ffurflen fonitro i wirio cynnydd y myfyriwr. Ar ddiwedd y profiad gwaith, mae adran yn y llyfr gwaith y mae'r sefydliad yn ei chwblhau fel adolygiad.<br><br>Fel rhan o brosiectau cyflogaeth/cymorth, mae gweithwyr yn cynnal ymweliadau monitro misol i dderbyn adborth. Byddai'r sefydliad lletya yn cynnal yr un oruchwyliaeth yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau ynghylch gweithwyr. | Dylid darparu goruchwyliaeth reolaidd. Gallai'r rhain fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol, drwy sesiynau un i un neu sesiynau grŵp.<br><br>Fel arfer, gall y sefydliad roi geirda i unrhyw un o'i wirfoddolwyr, yn nodi natur y rôl a gyflawnir ac yn manylu ar nifer yr oriau a weithir, y sgiliau a ddangosir, etc. |

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Hydref 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## I grynhoi, mae ystyr profiad gwaith yn wahanol i ddiffiniad gwirfoddoli. Mae gan brofiad gwaith amserlen benodol a chyfrifoldebau a goblygiadau cyfreithiol gwahanol mewn perthynas ag yswiriant, a gall fod â thâl/yn ddi-dâl.

Mewn perthynas ag arfer gorau ar gyfer profiad gwaith, mae trefniadau'n cael eu gwneud gan wasanaethau addysg a phrosiectau cymorth/ cyflogaeth. Gall profiad gwaith fod yn ffordd wych o ddarganfod llwybrau gyrfa newydd, ehangu eich rhwydwaith a dysgu sgiliau ymarferol newydd. Gall safon y profiadau amrywio - ein gobaith yw y bydd y daflen wybodaeth hon yn eich helpu i ddeall beth yw arfer gorau, a'i geisio!

Mae gwirfoddoli hefyd yn ffordd wych o gefnogi eich dysg ac ennill profiad ychwanegol a fydd yr un mor ddefnyddiol i chi ag i'r sefydliad. Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli o safon staff rheoli gwirfoddol ymroddedig eu hunain, sydd wedi datblygu sgiliau yn y maes hwn drwy hyfforddiant a phrofiad.

Byddant yn gallu eich helpu gyda'ch recriwtio, eich cynefino a'ch cefnogi i fwynhau'r rôl, a byddant fel arfer yn ad-dalu eich treuliau.

Gall gwirfoddoli arwain at ddatblygu profiad arbennig ar gyfer eich gyrfaoedd yn y dyfodol ac ennill geirda.

### Cysylltwch â'ch Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol lleol, sydd â thimau canolfan wirfoddol a all gynnig rhagor o help i chi:

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
01792 544000
**www.scvs.org.uk**

Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
01639 631246
**www.nptcvs.wales**

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Hydref 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Mae **Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg** yn brosiect amlasiantaethol sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth, rheolaeth a chydlyniad gwirfoddolwyr a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ledled ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae wedi'i ariannu drwy Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

**Partneriaid y prosiect yw:**
Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Am ragor o wybodaeth, ewch i:**
**www.westglamorgan.org.uk/wgvs**

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Hydref 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Adnodd a rennir ar gyfer datblygu gwybodaeth